



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



# Prif Swyddog Meddygol Cymru

## Diweddariad 97: Rhagfyr 2019



Croeso i Ddiweddariad y Prif Swyddog Meddygol. Fy nod i yn y diweddariad hwn fydd rhoi crynodeb i weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru o newyddion cyfoes, canllawiau a datblygiadau sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion sy'n berthnasol i ansawdd y gwasanaeth iechyd a gwella iechyd y boblogaeth. Gobeithio y byddant o ddefnydd i chi.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau am y cynnwys neu awgrymiadau ynglŷn ag erthyglau/pynciau mae croeso i chi anfon e-bost ataf: [DS.ChiefMedicalOfficer@llyw.cymru](mailto:DS.ChiefMedicalOfficer@llyw.cymru)

Diolch i chi am eich gwaith cyson yn cefnogi iechyd a llesiant pawb yng Nghymru.

**Frank Atherton**  
**Prif Swyddog Meddygol Cymru**

### Yn y rhifyn hwn:

Argymhellion ar gyfer rheoli erythematosus lwpws systemig	2
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018	2
Sefydlu Gweithlu'r System Archwilwyr Meddygol yng Nghymru	3
Y Gymraeg mewn gofal sylfaenol	5
Yr Ap GoodSAM	5
Achub Bywydau Cymru	6
Pwysau Iach: Cymru Iach	8
Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan – Penodiad Cyhoeddus y Cadeirydd – yr Athro Ceri Phillips	9
Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan – Adolygiad	10
Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru gyfan (AWMSG)	11

# Argymhellion ar gyfer rheoli erythematosus lwpws systemig

Clefyd awto-imiwn, amlsystem sy'n gallu datblygu ar unrhyw oedran yw erythematosus lwpws systemig (SLE neu lwpws). Mae'n effeithio ar tua 1 o bob 1000 o boblogaeth y DU ac mae'n fwyaf cyffredin ymhlith menywod. Gall rhoi diagnosis o lwpws fod yn anodd gan fod y clefyd yn achosi amrywiaeth mawr o nodweddion clinigol sy'n effeithio ar unrhyw system yn y corff a bod angen cyngor arbenigol i gadarnhau'r diagnosis. Mae tua 30% o gleifion lwpws yn datblygu clefyd yr arenau, yn enwedig y rheini o dras Affricanaidd. Yr achosion mwyaf cyffredin o farwolaeth yw haint a gall pobl ddatblygu clefyd cardiofasgwlaidd a marw'n gynamserol – yr oedran marwolaeth cymedrig mewn astudiaeth ddiweddar yn y DU oedd 54 oed.

Cyhoeddodd Cymdeithas Rheumatoleg Prydain (BSR) ganllaw wedi'i achredu gan NICE ar gyfer rheoli erythematosus

lwpws systemig mewn oedolion yn 2018 er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei reoli yn y modd gorau posib a gwella canlyniadau ar gyfer y clefyd newidiol hwn sy'n gallu peryglu bywyd. Mae'r canllaw yn ymdrin â gwneud diagnosis, asesu, monitro a thrin clefyd lwpws gweithredol. Defnyddiwch y dolenni isod i gael rhagor o wybodaeth:

**Erthygl gyflawn:**

[www.lupusuk.org.uk/recommendations-for-the-management-of-sle](http://www.lupusuk.org.uk/recommendations-for-the-management-of-sle)

**Canllaw llawn BSR:**

[www.academic.oup.com/rheumatology/article/57/1/e1/4318863](http://www.academic.oup.com/rheumatology/article/57/1/e1/4318863)

**Crynodeb Gweithredol:**

[www.academic.oup.com/rheumatology/article/57/1/14/4318864](http://www.academic.oup.com/rheumatology/article/57/1/14/4318864)

# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

Ar 12 Tachwedd 2019, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'r rheoliadau i gyflwyno isafbris uned (MUP) o 50c ar gyfer alcohol. Felly bydd isafbris uned o 50c yn cael ei gyflwyno o 2 Mawrth 2020.

Mae alcohol yn un o brif achosion marwolaeth a salwch yng Nghymru a bydd cyflwyno isafbris uned yn gwneud cyfraniad pwysig o ran mynd i'r afael â'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â goryfed

alcohol. Bwriad y ddeddfwriaeth hon yw mynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, drwy gael yfwyr peryglus a niweidiol i yfed llai. Mae ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019 i 2022, cynllun newydd a gyhoeddwyd ar 23 Hydref 2019, yn cynnwys nifer o gamau gweithredu i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig

ag alcohol, gan gynnwys sicrhau bod gwasanaethau camddefnyddio alcohol priodol ac ymatebol ar waith cyn gweithredu isafbris uned. Gellir gweld y cynllun drwy ddilyn y ddolen a ganlyn: [www.llyw.cymru/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-camddefnyddio-sylweddau-2019-i-2022-0](http://www.llyw.cymru/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-camddefnyddio-sylweddau-2019-i-2022-0)

Rydym wedi cydweithio'n agos â manwerthwyr, y diwydiant alcohol,

rhanddeiliaid ym meysydd iechyd y cyhoedd a chamddefnyddio sylweddau er mwyn datblygu canllawiau a deunyddiau ategol ychwanegol ynghylch yr isafbris ar gyfer alcohol. Byddwn yn cyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebu ar gyfer manwerthwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol yn y cyfnod cyn gweithredu, a fydd yn parhau i hyrwyddo amcanion y ddeddfwriaeth o ran iechyd y cyhoedd.

## Sefydlu Gweithlu'r System Archwilwyr Meddygol yng Nghymru

Mae cyflwyno gwasanaeth archwilwyr meddygol yn mynd rhagddo'n dda yng Nghymru.

Bwriad cyflwyno archwilwyr meddygol yw:

- Gwella ansawdd a chywirdeb tystysgrifau meddygol wrth nodi achos marwolaeth;
- Sicrhau atgyfeiriadau priodol i Grwneriaid;
- Rhoi mwy o dryloywder i'r rhai sydd mewn galar a chyfleoedd iddynt godi pryderon;
- Sicrhau diogelwch cleifion, dysgu a gwelliannau yn lleol drwy adrodd ar faterion llywodraethu clinigol;
- Sicrhau cysondeb â'r broses adolygu marwolaethau gyffredinol.

Caiff archwilwyr meddygol eu cynorthwyo gan swyddogion archwilio meddygol a fydd yn casglu gwybodaeth i graffu arni. Hefyd, os ydynt yn gymwys i wneud hynny, bydd modd iddynt ymgymryd â gwaith craffu cychwynnol ar y nodiadau meddygol a siarad â'r rhai sydd mewn galar o dan ddirprwyaeth yr archwilydd meddygol.

Bydd y broses o weithredu'r gwasanaeth yn dechrau mewn ysbytai aciwt yng Nghymru, gan adeiladu ar ein prosesau adolygu marwolaethau cyffredol a bydd yn ymestyn i gwmpasu pob marwolaeth.

Comisiynwyd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) i arwain y gwaith gweithredu ar ran byrddau iechyd yng Nghymru ac maent wedi gwneud rhai penodiadau allweddol sydd bellach yn gweithio i ddatblygu'r gwasanaeth yng Nghymru.

- Penodwyd Andrew Evans, cyn Gyfarwyddwr Rhaglen Gofal Sylfaenol ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, yn Rheolwr y Rhaglen Genedlaethol ym mis Awst.
- Penodwyd Dr Jason Shannon yn Archwiliwr Meddygol Arweiniol Cymru sy'n atebol i Archwilydd Meddygol Cenedlaethol Cymru a Lloegr. Histopatholegydd ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yw Dr Shannon.

- Penodwyd Daisy Shale yn Swyddog Archwilio Meddygol Arweiniol Cymru a chychwynnodd yn y swydd ar 1 Rhagfyr 2019. Mae Daisy wedi bod yn gweithio fel Prif Swyddog Archwilio Meddygol ar gyfer cynllun peilot y gwasanaeth archwilio meddygol yn Sheffield ers rhai blynyddoedd, gan gydweithio â Dr Alan Fletcher, Archwilydd Meddygol Cenedlaethol y DU erbyn hyn. Mae hi wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r gwasanaeth archwilio meddygol yn gyffredinol ac at ddatblygu rôl y swyddog archwilio meddygol yn benodol. Yn ei rôl fel Swyddog Archwilio Meddygol Arweiniol Cymru bydd yn cyfrannu at ddatblygiad strategol y gwasanaeth yn ogystal â'r cyflawni gweithredol a bydd ganddi gyfrifoldeb rheoli uniongyrchol dros yr holl swyddogion archwilio meddygol a gyflogir yng Nghymru.

Bellach mae'n bryd canfod a recriwtio'r rhai sydd â diddordeb mewn rolau Archwilwyr Meddygol a Swyddogion Archwilio Meddygol er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth ddigonol am ofynion y swydd ac yn cael amser a chymorth ariannol ar gyfer sesiynau hyfforddi ar-lein a wyneb yn wyneb misol sydd ar gael drwy Goleg Brenhinol y Patholegwyr.

Mae hyfforddiant archwilwyr meddygol wedi bod yn mynd rhagddo ers peth amser a dechreuodd sesiynau hyfforddi penodol ar gyfer Swyddogion Archwilio Meddygol ym mis Tachwedd a byddant yn cael eu cynnal bob yn ail fis, am yn ail gyda'r hyfforddiant i Archwilwyr Meddygol. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan Coleg Brenhinol y Patholegwyr [www.rcpath.org/profession/medical-examiners/medical-examiner-training.html](http://www.rcpath.org/profession/medical-examiners/medical-examiner-training.html)

Byddwn yn annog unrhyw un sydd â diddordeb yn y swyddi hyn neu unrhyw un sydd wedi ycwblhau rhai elfennau o'r hyfforddiant i gysylltu â Gareth Hardacre yn NWSSP i gael cyngor drwy anfon e-bost at:

[gareth.hardacre2@wales.nhs.uk](mailto:gareth.hardacre2@wales.nhs.uk).

Bydd y broses o recriwtio archwilwyr meddygol yn dechrau cyn bo hir. I fod yn archwilwyr meddygol, bydd angen i feddygon fod wedi cofrestru'n llawn gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol am isafswm o bum mlynedd a meddu ar drwydded i ymarfer, a derbyn hyfforddiant penodol ar gyfer y swydd. Rhaid iddynt fod yn ymarferwyr meddygol cofrestredig a phrofiadol sy'n gallu sicrhau bod yr achos marwolaeth a nodir gan y meddyg ardystio yn gywir ac yn cyfateb i'r cofnodion meddygol.

O ystyried ehangder y wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol ar gyfer y swydd, bydd meddygon o arbenigeddau 'eang' fel dwysegyddion, meddygon achosion brys a meddygon teulu yn ogystal â'r rheini sydd â phrofiad o gynnal adolygiadau marwoldeb neu graffu ar ffurflenni amlosgi yn addas iawn ar gyfer y swyddi. Bydd archwilwyr yn cael eu recriwtio a'u cyflogi'n rhan-amser ac yn sesiynol fel y gallant barhau â'u hymarfer clinigol drwy NWSSP mewn byrddau iechyd lleol.

Disgwylir y bydd deddfwriaeth yn ei lle, i sefydlu'r gwasanaeth archwilwyr meddygol ar sail statudol yng Nghymru a Lloegr yn 2021.

## Y Gymraeg mewn gofal sylfaenol

I gyd-fynd â chyflwyno Safonau Iaith Gymraeg ar gyfer y sector iechyd, mae safonau iaith wedi'u gosod ar gontractwyr annibynnol mewn gofal sylfaenol. Daeth y chwe dyletswydd i rym ar 30 Mai 2019.

Caiff pwysigrwydd y dyletswyddau a sut y byddant yn hyrwyddo ymwybyddiaeth bellach o'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd, ac yn cefnogi datblygiad hynny, eu hegluro ymhellach drwy'r ddolen a ganlyn: [www.llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-gofal-sylfaenol](http://www.llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-gofal-sylfaenol).

Mae Llywodraeth Cymru yn y camau cynnar o ddatblygu pecyn cymorth y Gymraeg ar gyfer y Sector Gofal Sylfaenol. Nod y pecyn cymorth yw cynorthwyo'r sector a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

## Yr Ap GoodSAM

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Byrddau Iechyd gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r ap 'GoodSAM', sy'n hysbysu gwirfoddolwyr sydd wedi cael hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol (BLS) pan fydd rhywun yn cael ataliad ar y galon gerllaw. Pan fydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) yn derbyn galwad 999 am ataliad ar y galon, mae'r ap yn hysbysu unigolion sydd wedi cael hyfforddiant

Cynnal Bywyd Sylfaenol ac yn dangos i'r ymatebwyr lle mae'r diffibriliwr agosaf. Aeth y gwasanaeth yn fyw o fewn WAST ar 1 Tachwedd 2018 i staff a gwirfoddolwyr; mae'n cael ei gyflwyno'n raddol ledled Cymru i bartneriaid addas. Bu sawl digwyddiad eisoes lle mae ymatebwyr GoodSAM wedi gallu mynd at y sawl sy'n cael ataliad ar y galon a dechrau rhoi triniaeth Cynnal Bywyd Sylfaenol.

# Achub Bywydau Cymru



Ar Ddiwrnod Adfywio'r Galon (16 Hydref), lansiwyd partneriaeth Achub Bywydau Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn ffurfiol yn Stadiwm Dinas Caerdydd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n sefydlu partneriaeth Achub Bywydau Cymru yn 2018, yn dilyn cyhoeddi cynllun Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty (OHCA) Llywodraeth Cymru y flwyddyn cynt. Roedd y cynllun yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer gwella'r gofal i bobl sy'n cael OHCA yng Nghymru. Mae'n disgrifio'r camau gweithredu sydd eu hangen ledled Cymru yn y GIG, gwasanaethau cyhoeddus ehangach a chymunedau, er mwyn gwella cyfraddau goroesi yn dilyn OHCA.

Cylch gwaith partneriaeth Achub Bywydau Cymru yw gosod sylfeini rhaglen o weithgareddau sy'n cynnwys codi ymwybyddiaeth o argaeledd a hygyrchedd hyfforddiant CPR/defnyddio diffibriliwr mewn cymunedau, datblygu rhwydweithiau lleol i annog cydweithredu ar draws gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth hyfforddiant, argaeledd diffibrilwyr a chydlynu ymgyrch gyfathrebu Cymru gyfan.

Bu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, a phartneriaid Achub Bywydau Cymru yn helpu i lansio'r digwyddiad; ynghyd â 60 o ddisgyblion o Ysgol Fitzalan a fu'n dysgu CPR i gyd ar unwaith.

I gyd-fynd â'r lansiad ac er mwyn helpu i ddeall a siapio datblygiad Achub Bywydau Cymru, cynhaliwyd arolwg Omnibws i ganfod gwybodaeth, agweddau ac ymddygiad y cyhoedd tuag at CPR a diffibrilio gan berson cyffredin yn achos Ataliad y Galon y tu allan i'r Ysbyty. Mae rhagor o wybodaeth drwy ddilyn y ddolen a ganlyn: [www.llyw.cymru/agweddaur-cyhoedd-roi-cpr-defnyddio-diffibriliwr-yn-y-fan-ar-lle-canfyddiadau-cychwynnol](http://www.llyw.cymru/agweddaur-cyhoedd-roi-cpr-defnyddio-diffibriliwr-yn-y-fan-ar-lle-canfyddiadau-cychwynnol).

Dyma'r canfyddiadau cychwynnol:

- Dywedodd 56% o ymatebwyr eu bod wedi cael hyfforddiant CPR;
- Byddai hanner yr ymatebwyr nad oeddent wedi cael hyfforddiant CPR yn dymuno cael hyfforddiant;
- Dywedodd 23% o'r ymatebwyr eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio diffibriliwr;

- Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr nad oeddent wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio diffibriliwr yn awyddus i gael y cyfle;
- Dywedodd 48% y byddent yn hyderus i roi CPR i rywun;
- Dywedodd 38% y byddent yn hyderus i ddefnyddio diffibriliwr;
- Nid oedd 55% yn gwybod lleoliad eu diffibriliwr agosaf.

Pan roddwyd rhestr o resymau posibl iddynt pam na fyddent yn dewis ymyrryd:


- Dywedodd 25% nad oedd ganddynt yr hyder i roi CPR;
- Nid oedd gan 24% y sgiliau i roi CPR;
- Mynegodd 22% o'r ymatebwyr bryderon y byddent yn gwneud pethau'n waeth.

Pan gyflwyniad datganiadau a gofyn iddynt i ba raddau roeddent yn cytuno (neu'n anghytuno) â nhw:

- Roedd 47% yn cytuno y byddent yn poeni y gallent waethygu'r sefyllfa drwy roi CPR;
- Roedd 34% o'r rhai a oedd wedi cael hyfforddiant CPR yn dweud y byddai hyn yn bryder.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod llawer o waith i'w wneud, ond bydd partneriaeth Achub Bywydau Cymru yn cydweithio i helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi prynu 250 o ddiffibrilwyr allanol awtomatig (AED) yn ddiweddar. Mae'r rhain yn cael eu dyrannu'n bennaf i ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru ac i Heddlu Gogledd Cymru.



# Pwysau Iach: Cymru Iach

Ar 17 Hydref lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC, Pwysau Iach: Cymru Iach yn y Gynhadledd Iechyd Cyhoeddus Genedlaethol. Mae Pwysau Iach: Cymru Iach yn gosod ein cynllun hirdymor i leihau ac atal gordewdra yng Nghymru ar draws pedair thema: Amgylcheddau Iach, Lleoliadau Iach, Pobl Iach ac Arweinyddiaeth a Galluogi Newid. Mae'r strategaeth yn cynnig gweledigaeth lefel uchel ar gyfer newid ar draws ein gwlad, ac yn rhoi cyfle i Gymru fod ar flaen y gad o ran lleihau lefelau gordewdra yn ein poblogaeth.

Mae'r cynllun 10 mlynedd hwn yn mabwysiadu dull traws-lywodraeth a thraws-sector o fynd i'r afael â gordewdra. Gwyddom fod gordewdra yn gymhleth ac na all y Llywodraeth na'r GIG ei ddatrys yn gweithio ar ei phen ac ar ei ben ei hun. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu mai dull partneriaeth a system gyfan yw'r unig ffordd o sicrhau newid cadarnhaol.

Gellir gweld y strategaeth drwy ddilyn y ddolen a ganlyn: [www.llyw.cymru/strategaeth-pwysau-iach](http://www.llyw.cymru/strategaeth-pwysau-iach).

I gyd-fynd â'r strategaeth bydd 5 o gynlluniau cyflawni bob dwy flynedd a fydd yn rhychwantu oes y strategaeth. Bydd y cynllun cyflawni cyntaf 2020-22 yn rhoi manylion yr union gamau gweithredu y bwriedir eu cymryd i weld newidiadau mewn ymddygiad ac arferion y boblogaeth, a gaiff eu hannog a'u hyrwyddo drwy ein lleoliadau a'n hamgylcheddau, a thrwy arweinyddiaeth leol a chenedlaethol.

Mae'r cynlluniau cyflawni yn golygu bod modd cynnwys gwerthuso yn y strategaeth a phrofi ffyrdd priodol o weithio a rhannu arfer gorau. Bydd y cynllun cyflawni cyntaf yn cael ei lansio yn gynnar yn 2020, a chyda chefnogaeth Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol bydd yn sbarduno'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu sydd eu hangen arnom i wella iechyd ein teuluoedd a chenedlaethau'r dyfodol.

Cewch wybod mwy am y strategaeth yn ein fideo isod:

[www.youtube.com/watch?v=5jeAzwxDY54](https://www.youtube.com/watch?v=5jeAzwxDY54).



# Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan – Penodiad Cyhoeddus y Cadeirydd – yr Athro Ceri Phillips

Sefydlwyd Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn 2002 ac mae'n rhoi cyngor ar y defnydd o driniaethau newydd yn y GIG yng Nghymru, rheoli meddyginiaethau a phresgripsiynu i Lywodraeth Cymru.

Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd, Vaughan Gething, bod yr Athro Ceri Phillips wedi'i benodi'n Gadeirydd newydd AWMSG ddydd lau 25 Gorffennaf.

Ar ôl ei benodi, dywedodd yr Athro Phillips: *"Rwy'n falch iawn fy mod wedi cael fy mhenodi'n Gadeirydd y Grŵp. Mae'n anrhydedd dychwelyd i'r sefydliad, a fu'n rhan mor bwysig o'm bywyd gwaith yn ystod ei wyth mlynedd cyntaf. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid wrth i'r Grŵp gychwyn ar bennod newydd."*

Mae'r Athro Ceri Phillips yn bennaeth Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd ym Mhrifysgol Abertawe ac yn Athro Economeg Iechyd yng Nghanolfan Economeg Iechyd Abertawe. Mae'n aelod annibynnol o Fwrdd Addysg a Gwellu Iechyd Cymru; yn aelod o Fwrdd Canolfan Arloesi Cymru ym maes Gwellu Clwyfau ac yn gadeirydd Cyngor Deoniaid Iechyd Cymru.

Roedd yn aelod gwreiddiol o Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan ac yn gyn aelod o Gomisiwn Bevan. Roedd yn gydawdur y cyhoeddiad a gychwynnodd gofal iechyd darbodus yng Nghymru.

Wrth gyhoeddi cyfnod pedair blynedd yr Athro Phillips fel Cadeirydd, dywedodd y Gweinidog: *"Mae'r Athro Phillips yn cynnig ystod eang o brofiad o'r sector iechyd ac roedd yn un o aelodau sefydlol Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan"*.

*"Rwy'n edrych ymlaen at weithio gydag ef yn y dyfodol i sicrhau ein bod yn parhau i greu Cymru Iachach – ein gweledigaeth i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl i gadw'n iach, i fyw bywydau iachach ac i fyw'n annibynnol cyhyd â phosibl!"*

# Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan – Adolygiad

Mae Sefydliad Iechyd Cymru ar gyfer Gofal Cymdeithasol (WIHSC) a Phrifysgol De Cymru wedi cyhoeddi adroddiad sy'n adolygu Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG).

Mae'r adroddiad yn codi nifer o feysydd i'w hystyried ynghylch llywodraethu a swyddogaeth AWMSG a'r Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) gan gynnwys:

- rôl a chyfeiriad strategol yn y dyfodol;
- gweithio gyda'r GIG yng Nghymru i helpu i wella ansawdd;
- trefniadau atebolrwydd a llywodraethu;
- trefniadau sefydliadol ac adnoddau; ac
- arweinyddiaeth a rheoli newid.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag uwch dîm rheoli AWMSG ac AWTTC a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wrth ymateb i'r adroddiad a chytuno ar ffordd ymlaen.

Gellir gweld yr adolygiad drwy ddilyn y ddolen a ganlyn: [www.wihsc.southwales.ac.uk/cymraeg/newyddion/2019-news/adroddiad-ar-ddyfodol-grwp-strategaeth-feddyginiaethau-cymru-gyfan/](http://www.wihsc.southwales.ac.uk/cymraeg/newyddion/2019-news/adroddiad-ar-ddyfodol-grwp-strategaeth-feddyginiaethau-cymru-gyfan/).

# Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru gyfan (AWMSG)

Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2018-2019:  
Dadansoddiad o Ddata Presgripsiynu hyd at fis Mawrth 2019  
(dogfen Saesneg)

[www.awttc.org/national-prescribing-indicators-2018-2019-analysis-prescribing-data-march-2019](http://www.awttc.org/national-prescribing-indicators-2018-2019-analysis-prescribing-data-march-2019)

Mae'r papur hwn yn adrodd ar gynnydd byrddau iechyd yn erbyn pob un o'r Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPI) 2018–2019, ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019. Roedd y rhan fwyaf o'r dangosyddion presgripsiynu sydd â throthwy yn dangos gwelliant yn unol â nod pob dangosydd, o gymharu â chwarter cyfatebol y flwyddyn flaenorol (chwarter yn dod i ben ym Mawrth 2018). Nid oedd yr NPI ar gyfer presgripsiynu gabapentin a pregabalin yn dangos gwelliant (cynnydd o 4.89%). Cyflwynwyd y ddogfen hon i AWMSG er gwybodaeth ym mis Medi 2019.

## Cyngor AWMSG

Yn ddiweddar, mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) wedi rhoi cyngor ar nifer o feddyginiaethau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r cyngor hwnnw. Os caiff meddyginiaeth ei hargymell gan AWMSG a'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r byrddau iechyd ddarparu cyllid o fewn dau fis i'r hysbysiad cadarnhau. Os nad argymhellir meddyginiaeth, ni ddylid ei rhoi ar bresgripsiwn fel mater o drefn o fewn GIG Cymru ar gyfer y cyflwr a nodir. Mae'r argymhellion canlynol gan AWMSG ar gael yn llawn ar wefan AWMSG: [www.awmsg.org](http://www.awmsg.org).

Rhif cyfeirnod AW TTC	Meddyginiaeth	Defnydd
<b>Meddyginiaethau a argymhellir</b>		
3977	<b>Buprenorphine (Buvidal) 8 mg, 16 mg, 24 mg, 32 mg, 64 mg, 96 mg, 128 mg solution for injection</b>	Treatment of opioid dependence within a framework of medical, social and psychological treatment. Treatment is intended for use in adults and adolescents aged 16 years or over  <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3977">www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3977</a>

Yn absenoldeb cais gan y cwmni sydd â hawl i'w marchnata, ni ellir cymeradwyo'r meddyginiaethau canlynol i'w defnyddio o fewn GIG Cymru.

Rhif cyfeirnod AWTTTC	Datganiadau Cyngor	Cwmni
2232	Abatacept (Orencia) 50 mg, 87.5 mg, 125 mg solution for injection <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2232">www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2232</a>	Bristol-Myers Squibb Pharmaceuticals Ltd
4171	Lenalidomide (Revlimid) 2.5 mg, 5 mg, 7.5 mg, 10 mg, 15 mg, 20 mg and 25 mg capsule <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/4171">www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/4171</a>	Celgene Ltd
4323	Melatonin 1 mg/ml oral solution and 3 mg film coated tablet <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/4323">www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/4323</a>	Colonis Pharma Ltd
2622	Olaparib (Lynparza) 50 mg capsule and 100 mg and 150 mg film coated tablet <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2622">www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/2622</a>	AstraZeneca UK Ltd
3097	Pegvaliase (Palyngiq) 2.5 mg, 10 mg and 20 mg solution for injection <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3097">www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3097</a>	BioMarin International Ltd
3515	Pomalidomide (Imnovid) 1 mg, 2 mg, 3 mg and 4 mg capsule <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3515">www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3515</a>	Celgene Ltd
3192	Rituximab (MabThera) 100 mg and 500 mg concentrate for solution for infusion <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3192">www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3192</a>	Roche Products Ltd

Rhif cyfeirnod AWTC	Datganiadau Cyngor	Cwmni
3563	Tenofovir disoproxil fumarate (Viread) 123 mg, 163 mg and 204 mg film coated tablet and 33 mg/g granules for oral suspension <a href="http://www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3563">www.awmsg.org/awmsgonline/app/appraisalinfo/3563</a>	Gilead Sciences Ltd

Cynhelir cyfarfod nesaf AWMSG ar 11 Rhagfyr 2019. Mae holl ddogfennau'r cyfarfod ar gael ar [www.awmsg.org/meetings\\_awmsg\\_2019.html](http://www.awmsg.org/meetings_awmsg_2019.html) cyn y cyfarfod.

**Manylion cyswllt**  
**Frank Atherton**  
**Prif Swyddog Meddygol**  
 Llywodraeth Cymru  
 Parc Cathays  
 Caerdydd  
 CF10 3NQ

Rhif ffôn: **03000 257028**  
 E-bost: [pschiefmedicalofficer@gov.wales](mailto:pschiefmedicalofficer@gov.wales)



Dilynwch fi ar Twitter  
**@CMOWales**